

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Beryl Hughes Griffiths

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

7/2/2017

Presennol: Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Alwyn E Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1679 Wrth groesawu'r Cynghorwyr, mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad gyda theulu cyn-aelod triw o'r Cyngor, sef y diweddar Hywel Evans, Maesybryn. Mynegodd y Cynghorwyr eu cydymdeimlad hwythau gyda'r Cadeirydd a gollodd ei chwaer yng Nghanada yn ddiweddar.

1670 **Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1671 **Cyflwyniad:** Croesawyd George Watson i drafod trefniadau'r Triathlon. Mynegodd ei ddymuniad am gefnogaeth a mewnbwn lleol gyda'r trefniadau, gan ei fod o'r farn fod yr achlysur o fudd sylweddol i'r economi leol. Cafwyd trafodaeth ar drefniadau trafniadaeth a chytunodd Mr Watson i geisio osod arwydd wrth Bont Tryweryn yn cyfeirio trafniadaeth i Ddolgellau i gyfeiriad Trawsfynydd. Cytunodd hefyd i geisio cael arwydd wrth Bont Mwnwgl y Llyn yn dweud fod y ffordd ar gau i bawb heblaw trigolion lleol. Gobeithir y byddai'r mesurau hyn yn atal cerbydau rhag ceisio cyrraedd Dolgellau ar hyd ffordd Llangywer ac wedyn orfod aros yn hir yn Llanuwchllyn i'r ffordd fawr agor. Diolchwyd i Mr Watson am y drafodaeth.

1672 **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

1673 **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ionawr 3ydd, 2017.

1674 **Materion y Clerc:**

- i. Anfonwyd sylwadau at Cartrefi Cymunedol Gwynedd parthed fflatiau Maesybandy; roedd Arwel Lloyd Jones wedi cyfarfod â'r Warden a rhoddodd adroddiad cynhwysfawr ar y sefyllfa. Cytunwyd i'r Clerc i anfon at CCG i'w hatgoffa o'u haddewid i drafod darpar denantiaid gyda chynrychiolwyr o'r Cyngor.
- ii. Bu dros 36,000 o ymwelwyr â Gwefan y Cyngor yn 2016.
- iii. Rhoddodd y Swyddog Ariannol adroddiad o hyfforddiant ar Gyllid a fynychodd.
- iv. Mae Pwyllgor y Neuadd yn cwblhau'r trefniadau gyda gosod diffibriliwr a hyfforddi pobl ar ei ddefnydd. Awdurdodwyd y Swyddog Ariannol i drefnu i dalu am hyn.

1675 **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad y Cyngorydd Sir a roddodd amlinelliad ar y sefyllfa ddiweddaraf gyda'r ysgol gydol oes.

1676 **Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru:** Derbyniwyd agenda cyfarfod 23/2/17.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Beryl Hughes Griffiths

1677 Materion Eiddo'r Cyngor:

Diolchwyd i'r is-bwyllgor am lenwi Holiadur y Llywodraeth am Asedau a Gwasanaethau. Cytunwyd i'r Swyddog Ariannol holi mwy am yswiriant ar y mynwentydd.

1678 Materion ariannol

Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis: y diffibriliwr, BDO (Archwilydd Allanol), Aelodaeth o Un Llais Cymru; costau teithio SAC i hyfforddiant 2/2/17. Cytunwyd hefyd i wneud cyfraniad o £150 i gefnogi ieuencid ar eu hymweliad â Chaerdydd i weld gwaith dyngarol.

1679 Partneriaeth Penllyn:

Derbyniwyd adroddiad y Cynrychiolwyr a soniodd am swydd y Cydlynnydd, y prosiect cymorth i'r hunangyflogedig er budd yr economi leol a swyddfa sydd newydd ddod yn wag. Cytunwyd i arwyddo Cytundeb 2017-18.

Cafwyd trafodaeth ar y toriad ariannol i'r Bartneriaeth ar gyfer cynnal rhai llwybrau cyhoeddus. Cynigwyd a chytunwyd i ofyn i'r Bartneriaeth gynnal yr un safon ag yn y blynyddoedd blaenorol. Cytunwyd i ddefnyddio arian a glustnodwyd yn y Gyllideb ar gyfer Her Gwynedd i dalu am unrhyw ddiffyg yn y gost.

Mynegwyd y dymuniad i aelodau Partneriaeth Penllyn weithredu ar y cyd i gynnal y llwybrau, er lles pob Cyngor yn yr ardal yn ddiwahân, gan ddilyn y fformiwla ariannol sydd eisoes gan y Bartneriaeth.

Tynnwyd sylw ei bod yn amhosib tramwyo ar hyd Llwybr Cae Ceunant oherwydd y gwlybanaiaeth. Cytunwyd i anfon yr wybodaeth at Liz Haynes, Cyngor Gwynedd.

Mynegwyd yr angen am arwyddion yng Nghanolfan Henblas i gyfeirio ymwelwyr.

1680 Gohebiaeth:

1. Parc Cenedlaethol Eryri:

Cadarnhawyd cymeradwyo Cais NP5/71/465 sef newidiadau i 1 Maesypanyd.

Derbyniwyd gwybodaeth am wrthod apêl y "Toll House".

Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i osod polyn telegyfathrebu wrth Graig y Tân.

2. Gwynedd:

Nodwyd Ymgynghoriad ar Newidiadau Materion yn codi o Gynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn (ddim yn berthnasol i Lanuwchllyn).

Derbyniwyd Rhaglen waith y Cyngor ar gyfer Chwefror a chroesawyd y bwriad i gwblhau Llwybr Tegid.

3. Llywodraeth:

Derbyniwyd copi o ymateb Ken Skates, yr Ysgrifennydd Cabinet, i lythyr Dafydd Elis Thomas ar ran Cyngor Cymuned Llanuwchllyn. Roedd yr

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn Cadeirydd: Beryl Hughes Griffiths

ymateb yn mynegi bod ymchwiliadau cychwynnol ar waith i asesu'r perygl llifogydd i'r A494 ar Bont Afon Lliw. Dywedodd Ken Skates y bydd unrhyw fesurau peirianyddol i liniaru'r perygl llifogydd neu ddiogelu'r ffordd ymhellach yn cael eu hystyried ar ôl i'r ymchwiliadau ddod i ben. Diolchwyd i Dafydd Elis Thomas am ei waith.

- 4. Eraill:** Rhannwyd gwybodaeth am y bwriad o gynnal Gŵyl Awyr Agored ym mis Awst yn yr ardal rhwng Llanuwchllyn a'r Bala.

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: Mawrth 7fed 2017 yn y Neuadd Bentref